**EITEM AR YR AGENDA: 18**

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 26ain Hydref 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **SIMON A SMITH,<br>Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am y penderfyniadau a wnaeth y Prif Swyddog Tân yn dilyn ymgynghoriad â'r Cadeirydd ynghylch ymestyn tâl salwch. |

1. **<u>YMESTYN TÂL SALWCH</u>**

1.1 Ers cyfarfod y Panel Gweithredol ar 25ain Gorffennaf 2005, caniatawyd naw estyniad i dâl salwch.

1.2 Mewn un achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn a naw mis pellach ar 50% o dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd estyniad ar 50% o dâl llawn am gyfnod o dri mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

1.3 Mewn un achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn a thri mis pellach ar dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd estyniad ar 50% o dâl llawn am gyfnod o chwe mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

1.4 Mewn dau achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn a phedwar mis pellach ar dâl llawn wedi dod i ben, a chaniatawyd estyniad ar 50% o dâl llawn am gyfnod o chwe mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

1.5 Mewn tri achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn a chwe mis pellach ar dâl llawn wedi dod i ben, a chaniatawyd estyniad ar 100% o dâl llawn am gyfnod o dri mis, neu ddychwelyd i'r waith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

1.6 Mewn un achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn wedi dod i ben, a chaniatawyd estyniad ar 100% o dâl llawn am gyfnod o dri mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

1.7 Mewn un achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn a mis pellach ar dâl llawn wedi dod i ben, a chaniatawyd estyniad ar 100% o dâl llawn am gyfnod o dri mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

1.8 Yn y cyfnod dan sylw, mae saith yn aelodau rhan amser a dau yn aelodau llawn amser o'r ochr lifrai o'r Gwasanaeth.

2. **<u>ARGYMHELLIAD</u>**

2.1 Nodi'r adroddiad.